Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cabinet | Dyddiad: | 15 Ionawr 2020 |
| | | Rhif Union: | 01824712568 |
| | | ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 21 IONAWR 2020** am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL YN Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGAN CYSYLLTIAD**

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 18)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 17 Rhagfyr 2019 (copi'n amgaeedig).

**5 COD YMARFER PRIFFYRDD** (Tudalennau 19 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Brian Jones, Aelod Arweiniol Gwastraff, Cludiant a'r Amgylchedd (copi'n amgaeedig) sy'n cyflwyno Cod Ymarfer newydd Priffyrdd i'w gymeradwyo'n ffurfiol.

**6 CYNLLUN AILGARTREFU POBL DDIAMDDIFFYN O SYRIA** (Tudalennau 69 - 82)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Lles ac Annibyniaeth (copi'n amgaeedig) sy'n gofyn i'r Cabinet roi cymeradwyaeth i barhau i gefnogi'r gwaith o ailgartrefu ffoaduriaid yn Sir Ddinbych drwy'r cynllun diwygiedig newydd.

**7 ARDAL GWELLA BUSNES (AGB) LLANGOLLEN** (Tudalennau 83 - 118)

Ystyried adroddiad **(sy'n cynnwys atodiad cyfrinachol)** gan y Cyng. Hugh Evans, yr Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi a Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig) sy'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ynglŷn â datblygu Ardal Gwella Busnes Llangollen ac yn ceisio cymeradwyaeth i'w sefydlu.

**8 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2020/21** (Tudalennau 119 - 136)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i godi rhent blynyddol tai cyngor Sir Ddinbych ac i gymeradwyo Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2020/21 a'r Cynllun Busnes Stoc Dai.

**9 CYLLIDEB 2020/21 – CYNIGION TERFYNOL** (Tudalennau 137 - 162)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi'n amgaeedig) sy'n nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 20 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2020/21.

**10 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 163 - 308)

Ystyried adroddiad gan y Cyng. Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol (copi ynghlwm) ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth y cytunwyd arni ar gyfer y gyllideb.

**11 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET** (Tudalennau 309 - 312)

Derbyn Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol amgaeedig y Cabinet a nodi'r cynnwys.

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

Hugh Evans
Bobby Feeley
Huw Hilditch-Roberts
Richard Mainon
Tony Thomas
Julian Thompson-Hill
Brian Jones
Mark Young

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned